

Cofnodion Pwyllgor Clwb Mynydda Cymru a gynhaliwyd ar nos Sadwrn 22 Medi, 2012 yn Hostel Dan y Wenallt ger Talybont

Presennol: Presennol: Arwel (AR) – Cadeirydd ,Gareth (GR)Guto (GE), Rhys (RD),Iolo (IPR),

Ymddiheuriadau: Alwen, Anita, Dai, Iolo, John ,Maldwyn, Marion, Siân.

<p>1.</p>	<p><u>COFNODION</u> Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Mai 2012</p> <p>Materion yn codi</p> <p><u>Eitem 3 – Cais gan Mari Gwent</u></p> <p>Adroddwyd fod Mari bellach wedi cysylltu ag Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a oedd yn gefnogol iawn i'w syniadau ac am gysylltu â Phlas y Brenin ynglŷn â hyn</p> <p><u>Eitem 8 – Hyfforddiant – Cwrs Cymorth Cyntaf</u></p> <p>Nodwyd y bydd y clwb yn barod i ddigolledu'r aelodau hynny sydd yn cwblhau'r cwrs gan y bydd o fudd i'r clwb gael aelodau sydd wedi derbyn yr hyfforddiant yma. Y trysorydd i hysbysu John Parry, trefnydd cwrs, o hyn.</p>	<p>GR</p>
<p>2</p>	<p>FFORWM AELODAU</p> <p>Adroddwyd bod y fforwm bellach wedi ei sefydlu ac yn cael ei defnyddio gan aelodau'r clwb. Cafwyd gwybod gan SS bod 52 wedi ymaelodi gyda chyfran helaeth ohonynt wedi ymweld â'r fforwm o leiaf unwaith ar ôl cofrestru a chnewyllyn wedi cychwyn ei defnyddio fel dull o ledaenu gwybodaeth a negeseuon. Mae Sian wedi creu nifer o benawdau ar wahanol feysydd a hoffai gael y cyfle i arddangos y fforwm yn y cyfarfod blynyddol er mwyn ei hybu ac i weld pa anawsterau mae aelodau yn eu hwynebu neu'n eu canfod wrth ei defnyddio.</p> <p>Penderfynodd y pwyllgor groesawu sefydlu'r fforwm a mynegi yn ffurfiol ei werthfawrogiad a diolch am waith caled Siân yn ei sefydlu. Cytunwyd hefyd y byddai'n fuddiol i gael arddangosiad ar y fforwm yn y cyfarfod blynyddol.</p>	
<p>3.</p>	<p>AELODAETH Y PWYLLGOR</p> <p>Adroddwyd gan IPR fod angen rhywfaint o aelodau newydd ar y pwyllgor y flwyddyn nesaf a bod rhai awgrymiadau wedi eu derbyn. Anfonwyd neges i'r holl aelodaeth hefo manylion y cyfarfod blynyddol a disgwylir i weld sut ymateb a geir i hynny hefyd.</p> <p>Nodwyd y sefyllfa gan y pwyllgor ac yn y drafodaeth ar hyn cytunwyd y byddai'r dasg o geisio denu mwy o aelodau iau i'r clwb yn un o flaenoriaethau'r pwyllgor er mwyn ceisio diogelu ei ddyfodol.</p>	
<p>4</p>	<p>SWYDDI - YSGRIFENNYDD GWEITHGAREDDAU AC IS-GADEIRYDD</p> <p>Adroddwyd fod Eryl Owen o Benmachno wedi datgan parodrwydd i gael ei ystyried fel ysgrifennydd gweithgareddau newydd yn sgil penderfyniad Maldwyn i roi gorau i'r swydd. Unig bryder Eryl oedd a ddylai'r clwb ystyried cael rhywun iau i wneud y swydd.</p> <p>Penderfynodd y pwyllgor mai amser yw angen pennaf ysgrifennydd gweithgareddau a chan fod Eryl bellach wedi ymddeol roedd yna deimlad y byddai'n ddelfrydol i wneud y swydd. Gofynnwyd i IPR ei hysbysu o hyn.</p> <p>Is-gadeirydd - nid oedd unrhyw aelod wedi datgan parodrwydd i gael ei ystyried fel Is-</p>	

	gadeirydd ac roedd ymdrechion yn parhau i weld os byddai'n bosib cael rhywun i ymgymryd â'r swydd erbyn y cyfarfod blynyddol	
5	CYFARFOD BLYNYDDOL 2012 Adroddwyd oherwydd problemau hefo Plas y Brenin bydd y cyfarfod blynyddol yn cael ei gynnal eleni yn y Royal Goat ym Meddgelert ar nos Sadwrn 17 Tachwedd 2012 a bod Aneurin Phillips wedi cytuno i fod yn ŵr gwadd ar y noson. Yn ogystal a'r gweithgareddau arferol bydd yna gyfle i aelodau gael demo o'r fforwm newydd.	IPR
6	RHAGLEN HYFFORDDIANT 2012 Nid oedd yna unrhyw beth pellach i'w adrodd ar weithgareddau hyfforddi'r clwb am eleni y tro hwn	
7	OFFER Nid oedd yna unrhyw beth pellach i'w adrodd ar brynu offer y tro hwn	
8	CYNGOR MYNYDDA PRYDEINIG Adroddwyd nad oedd unrhyw beth penodol i'w adrodd.	
9	PARTNERIAETH AWYR AGORED Adroddwyd nad oedd unrhyw beth penodol i'w adrodd.	
10.	RHAGLEN GWEITHGAREDDAU NESAF Y CLWB. Nodwyd mai'r ysgrifennydd gweithgareddau newydd fydd yn ymgymryd a'r swydd ar ôl mis Tachwedd ac yn gyfrifol am lunio'r rhaglen nesa. Cytunwyd ei bod yn bwysig bod yna gydweithio agos rhwng yr ysgrifennydd gweithgareddau presennol a'r un newydd yn y cyfnod trawsnewidiol a chytunodd RD i geisio sicrhau fod hyn yn digwydd. Adroddodd RD hefyd ei fod yn awyddus i gael trefn mewn lle fel bod yna gyfrifoldeb ar unigolion penodedig i fwydo syniadau ar gyfer gwahanol weithgareddau'r clwb i'r ysgrifennydd gweithgareddau a fyddai wedyn yn eu cynnwys ar raglen y clwb. Roedd yn gobeithio y byddai hyn yn helpu i leihau baich yr ysgrifennydd gweithgareddau. Nodwyd hefyd fod angen trefnu beth fyddai'n digwydd hefo penwythnos Rhyd-ddu yn Ionawr 2013 a hefyd y dylid gofyn i MPR os byddai'n barod i barhau i drefnu wythnosau'r clwb yn yr Alban ym mis Chwefror.	RD